**Cofnodion Drafft**

**COFNODION O GYFARFOD CYNGOR CYMUNED HARLECH A GYNHALIWYD YN YR HEN LYFRGELL, HARLECH A DROS ZOOM AM 7.00 O'R GLOCH 06.07.26**

**7.1 YMDDIHEURIADAU**

Cyng. Martin Hughes..

**7.2 PRESENNOL**

Cyng. James Maxwell (Cadeirydd), Tegid John (Is-Gadeirydd), Christopher Braithwaite, Reg Chapman, Edwina Evans, Wendy Williams, Simon Turner, Jane Emmerson, Giles Bentham, Mark Lewis, a'r Cyng. Annwen Hughes a Gwynfor Owen (Cyngor Gwynedd).

Nid oedd neb o'r cyhoedd yn bresennol er bod 3 wedi gofyn am y linc zoom i'r cyfarfod.

**Cwestiynau gan aelodau o'r cyhoedd**

Nid oedd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

**7.3 CYHOEDDIADAU Y CADEIRYDD**.

Cafwyd y cyhoeddiadau canlynol gan y Cadeirydd:-
Croesawodd y Cyng. Jane Emmerson i'w chyfarfod cyntaf o'r Cyngor a dymunodd yn dda iddi yn y dyfodol. Fe arwyddwyd Dogfen Derbyn Swydd gan y Cyng. Emmerson.
'Roedd wedi cael amryw o gyfarfodydd gyda gwahanol fudiadau gan gynnwys HAL, Joe Patton (sydd yn ysgrifennydd i bwyllgor cae chwarae Brenin Sior), Cyng. Reg Chapman, 'roedd yr is-bwyllgor cyllid wedi cyfarfod (angen diwygio y rheolau ariannol – rhoid hyn ar agenda mis Medi o gyfarfod yr is-bwyllgor), wedi ysgrifennu llythyr i'w anfon at Heledd Fychan ('roedd pawb yn cytuno hefo cynnwys y llythyr hwn ar ol i'r ychwanegiadau gael eu cynnwys), bydd yr adroddiad bioamrywiaeth ar gael yn mis Medi.
Datganodd bydd y Clerc ddim ar gael rhwng y 18ed o'r mis hwn ar 3ydd Awst ag felly os bydd aelodau o'r cyhoedd angen cysylltu i weld y cyfrifon rhwng y 18ed ar 31ain o'r mis hwn iddynt gysylltu gyda ef oherwydd bydd cyfrifon y Cyngor yn ei feddiant.

**7.4 COFNODION**

Derbyniwyd cofnodion o gyfarfod Mehefin 1af 2026 fel rhai cywir.

**7.5 MATERION YN CODI O'R COFNODION**

Nid oedd unrhyw fater yn codi o'r cofnodion.

**7.6 DATGAN BUDDIANT**

Datganodd y Cyng. Reg Chapman ddiddordeb yn y mater i wneud gyda HAL
Datganodd y Cyng. Simon Turner ddiddordeb yn y mater i wneud gyda HAL
Ni lofnodwyd Dogfen Datgan Buddiant Personol ganddynt am eu bod wedi gwneud hyn yn barod yng nghyfarfod diwethaf y Cyngor a bod y diddordeb yn y mater hwn yn rhedeg yn barhaol.
Datganodd y Cyng. Reg Chapman ddiddordeb yn nghais cynllun Gwalia, Harlech ag fe arwyddwyd Dogfen Datgan Buddiant Personol ganddo.

**7.7 MATERION CYNGOR GWYNEDD**

Fe dderbyniwyd yr adroddiad canlynol gan y Cyng. Annwen Hughes – adroddodd ei bod wedi derbyn gwahoddiad I fynychu cyfarfod cychwynol prosiect gwyrddni trefol ag 'roedd y cyflwyniad yn un diddorol iawn oherwydd bod Harlech wedi cael ei ddewis fel un o'r trefi addas I ymchwilio gwelliannau bioamrywiaeth gan fod cyfraddau canopi coed trefol cymharol isel. 'Roedd wedi gorfod ymddiheuro ei bod yn methu mynychu cyfarfod I agor yr ardd synhwyrau ar y 24ain o fis diwethaf oherwydd ei bod mewn cyfarfod gyda'r Parc Cenedlaethol. Fe atgoffwyd yr Aelodau am yr ateb ei 'roedd wedi ei dderbyn gan Iwan Ap Trefor ynglyn a gosod croesfan ar Ffordd Morfa.
Cafwyd yr adroddodd canlynol gan y Cyng. Gwynfor Owen – adroddodd ei fod wedi derbyn cwynion bod parc Bron y Graig yn fler, y llwybrau cyhoeddus heb gael eu torri, gor-yrru o gwmpas Harlech, 'roedd wedi anfon llythyr at Heledd Fychan AC yn ei gwahodd I Harlech ond nid oedd wedi cael ateb eto, bydd Cyngor Gwyned yn dechrau edrych

ar dorriadau o 5% yr wythnos hon, wedi mynychu agoriad swyddogol yr ardd synhwyrau. Wedi trafod gyda Cyfoeth Naturiol Cymru a Chyngor Gwynedd ynglyn a chlerio'r tywod I'r traeth. Rhai yn parcio yn maes parcio Min y Don dros nos.

**7.8 <u>MATERION YN CODI</u>**

**A <u>Cynllun Cyllideb</u>**

Adroddwyd bod £17,850.13 (a oedd yn cynnwys costau banc) wedi cael ei wario ers cychwyn y flwyddyn ariannol newydd a bod hyn yn £38,719.12 o wariant yn llai na oedd wedi cael ei glustnodi yn y gyllideb am y flwyddyn 2026/27.

**B <u>HAL - CIC</u>**

Derbyniwyd yr adroddiad canlynol gan y Cyng. Reg Chapman mewn perthynas â'r sefyllfa ddiweddaraf yn ymwneud â HAL -

Esboniodd y Cyng. Chapman yr anhawsterau wrth gael yswiriant ar gyfer adeilad y pwll. Roedd y premiwm yn uwch na'r ffigur a ganiatawyd yn y gyllideb. Roedd yn dal i aros am ddyddiad ar gyfer cyfarfod pellach gyda'r Band. Roedd hyn nawr yn mynd yn hanfodol; roedd y Cyng. Gwynfor Owen yn trefnu hyn i ddigwydd cyn gynted â phosib. Roedd trafodaethau wedi digwydd gyda Aled Williams, pennaeth Ysgol Ardudwy, am gynlluniau ar gyfer safle'r pwll a sut gallai gwella caeau chwarae Brenin Sior V a chyfleusterau'r ysgol fod o fudd i'r gymuned leol. Mae llawer o eitemau o'r pwll gan gynnwys y mathau chwim wedi cael eu trosglwyddo i safleoedd hamdden eraill yng Ngwynedd.

Ar ôl trafodaeth, cytunwyd i ystyried trosglwyddo HAL i CIC y Cyngor fel eitem ar wahân ar ddiwedd yr agenda ar gyfer y cyfarfod hwn ag 'roedd pawb yn gytun i hyn gael ei wneud.

**C <u>Lansio Adduned Un Llais Cymru Ar Cwrteisi a Parch</u>**

'Roedd rhai Aelodau o blaid arwyddo y ddogfen hon a rhai yn erbyn. Cytunwyd i'w rhoid ar agenda mis nesa er mwyn ei drafod ymhellach cyn dod i benderfyniad. Trafodwyd y mater hwn ymhellach ag ar ol pleidlais 'roedd 4 o blaid arwyddo, 4 yn erbyn arwyddo ag felly er bod y Cadeirydd yn atal ei bleidlais fe ddefnyddio ei bleidlais penderfynol ag fe bleildleisiodd o blaid arwyddo y ddogfen.

**D <u>Cae Chwarae Brenin Sior a Llyn y Felin</u>**

Adroddodd y Clerc ei bod wedi derbyn e-bost gan Mr. Joe Patton yn gofyn a fyddai yn bosib iddo ddod i'r cyfarfod o'r Cyngor yn mis Medi i rhoid cyflwyniad i'r Aelodau o'i waith fel un sydd yn archwilio offer chwarae y Cyngor.

Adroddodd y Cyng. Chapman bod pwyllgor Brenin Sior V wedi adfywio i weithio ar wella'r cyfleusterau ar gyfer y gymuned ac cynhaliwyd cyfarfod ar y 3ydd o'r mis hwn gyda'r holl grwpiau defnyddwyr wedi'u cynrychioli. Byddent yn adrodd yn ôl i'r Cyngor am gynigion ar gyfer y dyfodol. Canfuwyd fod galw sylweddol ar y caeau chwaraeon bellach ac bod y gwyneb chwarae yn drueni ac y bydd angen mynd i'r afael â'r diffyg cyfleusterau newid. Credwyd hefyd y byddai'n rhaid cynnwys man cymunedol mewn unrhyw ddatblygiad. Byddai hyn i gyd angen datrysiadau tymor byr a hir i alluogi defnyddio i barhau tra gellid casglu ceisiadau am arian. Roedd y maes chwarae r angen ei uwchraddio a'i adolygu, gyda mwy o geisiadau am arian yn ofynnol. Byddai ariannu'r gwaith yn ei gyfanrwydd y tu hwnt i gyllideb gymedrol y Cyngor, yn enwedig gan fod cronfa gymeradwyo atgyweiriadau wedi cronni ar offer presennol. Roedd yr ardal wyllt yn cael ei datblygu'n llwyddiannus ac roedd hyn yn cael ei weithio arno drwy Joe Paton.

Gobeithiwyd dod â'r cynigion ar gyfer adnewyddu'r ardal i arddangosfa gyhoeddus a hefyd derbyn unrhyw syniadau ar sut y gellid gwella'r ardal.

Cafodd y ffin ar hyd y ffordd fynediad ei thrafod gan y Cyngor a cytunwyd y dylid sefydlu gwrych a ffens gadarn ar wahân i'r un presennol yr hydref hwn.

'Roedd yr offer oedd wedi malu yn cae chwarae Llyn y Felin wedi cael ei dynnu ag hefyd datganwyd siom bod fandaliaeth wedi bod ar y safle yn ystod nos Sadwrn y 4ydd. Cytunwyd gofyn i Mr. Meirion Evans i godi y garreg oedd wedi disgyn ag hefyd i dacluso y ffens o amgylch y cae chwarae.

**E <u>Ardoll Ymwelwyr Gwynedd</u>**

'Roedd rhai wedi ymateb i'r ymgynghoriad hwn yn barod ag fe gafwyd wybod gan y Clerc ei fod yn agored tan y 26ain o'r mis hwn. Cytunwyd i beidio ag ymateb fel Cyngor ond bod pawb oedd eisiau yn ymateb fel unigolyn.

**F Ethol Cynghorydd**
Adroddodd y Clerc ei bod wedi cael gwybod gan y Swyddog Etholiadol yn Gaernarfon bod cais am etholiad wedi cael ei dderbyn ganddo ond nid oedd wedi anfon ddim manylion pellach.

**G Materion a Gynigir**
Aeth y Cadeirydd o amgylch y bwrdd gan ofyn i bob Aelod beth oeddynt eisiau ei gynnwys yn yr agenda yn y dyfodol ag fe gafwyd yr ymatebion canlynol –
Eisiau rhoid adroddiadau gan yr is-bwyllgorau ar yr agenda
Eisiau symud eitem materion Cyngor Gwynedd i ddiwedd yr agenda
Cynghorwyr yn cynnal cymorthfeydd
Cyfieithu dros zoom
Gwefan y Cyngor i gov.uk
Parc Bron y Graig
Safle ffens ger Cae Besi y fler
Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu gyda Mr. Bryn Hughes ynglyn a chyflwr Parc Bron y Graig

**7.9 CEISIADAU CYNLLUNIO**
**Tystysgrif Defnydd Cyfreithlon (Presennol) i gadarnhau bod y defnydd wedi newid o ddefnydd cymysg o Breswyl (Dosbarth Defnydd C3) a Bwyty (Dosbarth Defnydd A3) i Breswyl (Dosbarth Defnydd C3) yn unig - Gwalia, Stryd Fawr, Harlech (NP5/61/LU335G)**
Gwrthwynebu y cais cynllunio hwn oherwydd ei fod yn mynd yn erbyn y Cynllun Datblygu Lleol

**Caniatâd Arddangos Arwyddion i amnewid yr arwyddion presennol ac arddangos 2 arwydd ffascia wedi ei goleuo, 2 arwydd peilon wedi ei goleuo ac un arwydd peilon heb ei oleuo Garej Toyota, Ffordd Newydd, Harlech (NP5/61/AD20K)**
Cefnogi y cais cynllunio hwn.

**7.10 ADRODDIAD Y SWYDDOG ARIANNOL CYFRIFOL**
Adroddodd y Swyddog Ariannol Cyfrifol bod £61,278.04 yn y cyfrif rhedegol a £86,074.31 yn y cyfrif cadw.

**Taliadau yn ystod y mis**
Mr. G. J. Williams - £208.00 – torri gwair cae peldroed a cae chwarae Brenin Sior
Mr. Meirion Griffith - £265.00 - torri gwair y fynwent gyhoeddus
Mr. Meirion Griffith - £105.00 - torri gwair amrywiol lefydd
Mr. Meirion Griffith - £90.00 - torri gwair cae chwarae Llyn y Felin x 2
Lee Warwick - £377.07 – glanhau toiledau ger y neuadd goffa (Mai a Mehefin)
Lee Warwick - £100.00 - strimio o amgylch y rhandiroedd x 2
Bevan Brittan - £8,881.20 – prosiect cynllun gwesty Harlech
Playsafety Ltd - £438.00 - cwrs diogelwch parciau chwarae (Joe Patton)
Mr. Simon Turner - £48.25 - nwyddau ar gyfer ardduniadau nadolig y Cyngor
Mr. Joe Patton - £34.96 - nwyddau i parc chwarae Llyn y Felin
Mr. Joe Patton - £491.42 - nwyddau i'r ardd gymunedol (allan o gyfrif cae chwarae Brenin Sior)
Mr. Meirion Evans - £240.00 - tynnu offer chwarae wedi malu o cae chwarae Llyn y Felin
Mr. T. Cotterill - £500.00 - gwaith ar darn o dir ger cae chwarae Llyn y Felin
Mrs Annwen Hughes - £104.99 – ad-daliad tanysgrifiad trwydded microsoft 365Mr.
Mr. M.J. Kerr - £600.00 - agor bedd y diweddar Blodwen Evans
Cyllid a Thollad - £109.80 - treth ar gyflog y Clerc
Clear Insurance - £420.25 - ychwanegu seibyr clir i'r polisi yswiriant

**Ceisiadau am gymorth ariannol**
Hamdden Harlech ac Ardudwy - £1,700.00

Fe gafodd y taliadau uchod eu prosesu gan y Cyng. Wendy Williams a wnaeth y Cyng. Edwina Evans gymeradwyo'r taliadau ag fe roddwyd ganiatad I'r Clerc/Trysorydd I'w talu ar lein neu drwy siec ar ddiwedd y cyfarfod.

Gofynnodd y Trysorydd am ganiatad y Cyngor I wneud taliadau sydd I weld yn rhai brys yn ystod mis Awst oherwydd nid oes cyfarfod swyddogol o'r Cyngor tan mis Medi. Cytunwyd I ddirprwyo y mater hwn I'r is-bwyllgor cyllid gyda swm I fyny hyd at £15,000

**Derbyniadau yn ystod y mis**
Cyllid a Thollad - £260.00 - ad-daliad TAW

**Anfonebau wedi eu talu ers y cyfarfod diwethaf**
Catrin Soraya Williams – £115.00 - gwasanaeth cyfieithu

**7.11 GOHEBIAETH**
**A Parc Cenedlaethol Eryri**
Wedi derbyn cais am Adborth: Proffiliau Aneddiadau Drafft gan tim Polisi Cynllunio yr uchod ag yn gofyn am gymorth y Cyngor i adolygu proffiliau anheddiadau sydd wedi'u paratoi ar gyfer anheddiadau o fewn ein Cyngor Cymuned. Hefyd yn datgan bod y proffiliau anheddiadau'n dod â gwybodaeth allweddol at ei gilydd am bob anheddiad. Maent yn un o'r camau cyntaf o gasglu tystiolaeth a fydd yn helpu i lywio asesiadau anheddiadau yn y dyfodol a'r strategaeth ofodol ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol.
Yn datgan byddai y Cyngor Cymuned yn gweld y proffiliau anheddiadau sy'n berthnasol I'r ardal hon a mae rhain ar ffurf drafft cyntaf, a byddant yn ddiolchgar iawn os fyddai y Cyngor Cymuned yn gallu cyfrannu atynt er mwyn sicrhau bod gwybodaeth a lleisiau rhanddeiliaid lleol yn cael eu cynnwys.
Yr hyn mae y tim Polisi Cynllunio yn gofyn I'r Cyngor Cymuned ei wneud yw y canlynol:-
Ar gyfer pob anheddiad sydd wedi'i gynnwys, gofynnwn i chi gwblhau'r tri cham canlynol:

1 **Adolygu'r proffil anheddiad**
Gwiriwch y proffil a nodwch unrhyw wybodaeth sy'n anghyflawn, yn anghywir, neu y gellid ei gwella.
Gellir cofnodi'r sylwadau hyn ar dudalen gyntaf yr holiadur.

2. **Cwblhau'r holiadur**
Cwblhewch un holiadur ar gyfer pob anheddiad. Rydym yn arbennig o awyddus i dderbyn eich barn ar gryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau (SWOT) yr anheddiad. Gellir hefyd ddefnyddio'r holiadur i gyflwyno cywiriadau neu wybodaeth ychwanegol.

3. **Cwblhau'r ffurflen gwasanaethau a chyfleusterau**
Rhestrwch yr holl wasanaethau a chyfleusterau lleol y dylid eu cynnwys yn y proffil anheddiad. Cofnodwch gymaint o fanylion â phosibl.
'Roedd y Clerc wedi anfon yr e-bost hwn ymlaen I bob Aelod yn barod

**B Mrs Judith Strevens**
Wedi derbyn e-bost gan yr uchod yn gofyn i'r Aelodau a fyddai yn bosib i'r Cyngor archebu troli (i'w chael ei chlymu i'r ffens neu giat ger y brif fynedfa i'r traeth fel fyddai trigolion yn gallu mynd a hi i'r traeth i glerio eitemau mawr o ysbwriel. 'Roedd y Clerc wedi anfon yr e-bost hwn ymlaen I bob Aelod yn barod
Wedi derbyn e-bost gan yr uchod yn gofyn i'r Cyngor a fyddai yn bosib i'r Cyngor archebu troli (i'w chael ei chlymu i'r ffens neu giat ger y brif fynedfa i'r traeth fel fyddai trigolion yn gallu mynd a hi i'r traeth i glerio eitemau mawr o ysbwriel. 'Roedd y Clerc wedi anfon yr e-bost hwn ymlaen I bob Aelod yn barod. Eisiau cysylltu gyda'r Swyddog Morwrol yn gofyn beth oedd eu cynllun glanhau y traeth.

**C Un Llais Cymru**
Wedi derbyn e-bost gan yr uchod ynglyn a dyddiadau hyfforddiant sydd ar gael i Aelodau rhwng mis Mehefin a mis Medi. 'Roedd y Clerc wedi anfon yr e-bost hwn ymlaen I bob Aelod yn barod

**D <u>Un Llais Cymru</u>**

Wedi derbyn e-bost gan yr uchod ynglyn a cyfarfod pwyllgor Ardal Meirionnydd a fydd yn cael ei gynnal ar yr 15ed o'r mis hwndros zoom. Adroddodd y Clerc ei bod wedi anfon yr e-bost hwn ymlaen i'r Aelodau yn barod.

**E <u>Visit Harlech</u>**

Wedi derbyn e-bost gan yr uchod yn gofyn am gyfraniad ariannol gan y Cyngor tuag at gadw gwefan y sefydliad hwn yn agored. 'Roedd y Clerc wedi anfon yr e-bost hwn ymlaen I bob Aelod yn barod. Cytunwyd I adael y mater hwn ar y bwrdd ar hyn o bryd a cytunodd y Cyng. Simon Turner cael gair pellach gyda Helen Williams.

**F <u>Parc Cenedlaethol Eryri</u>**

Wedi derbyn llythyr gan yr uchod ynglyn a Gwasanaeth Cydymffurfiaeth Cynllunio – Gwybodaeth i Gynghorau Cymuned a Thref ag yn rhoid i trosolwg byr o Wasanaeth Cydymffurfiaeth yr Awdurdod ac i egluro sut mae materion cydymffurfiaeth yn cael eu trin. 'Roedd y Clerc wedi anfon yr e-bost hwn ymlaen I bob Aelod yn barod

**<u>Pleidlais CIC</u>**

Cafwyd y cynnig canlynol gan y Cyng. Reg Chapman – bod HCI yn cymeryd drosodd asedau HAL cyn gynted a phosib. 'Roedd y Cyng. James Maxwell, Christopher Braithwaite, Reg Chapman, Edwina Evans, Wendy Williams, Simon Turner, Jane Emmerson a Mark Lewis o blaid y cynnig. 'Roedd y Cyng. Giles Bentham yn atal ei bleidlais

**ARWYDDWYD............................................**Cadeirydd

**DYDDIAD....................................................** 899